# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 19 Medi 2024

Amser: 09.28 - 13.22

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/14090

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Buffy Williams AS (Cadeirydd)<br>Cefin Campbell AS<br>Gareth Davies AS<br>Tom Giffard AS<br>Julie Morgan AS (yn lle Jack Sargeant AS)<br>Lesley Griffiths AS (yn lle Hefin David AS)<br>Lee Waters AS<br>Heledd Fychan AS |
| Tystion: | Dawn Bowden AS, Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol<br>Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip<br>Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg<br>Alistair Davey, Llywodraeth Cymru<br>Taryn Stephens, Llywodraeth Cymru<br>Iwan Roberts, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| | Bethan Webb, Llywodraeth Cymru<br>Michael Connolly, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Manon Huws (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br>Osian Bowyer (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Hefin David AS a Jack Sargeant AS, roedd Julie Morgan yn dirprwyo ar ran Jack a Lesley Griffiths AS yn dirprwyo ar ran Hefin.

1.3 O dan Reol Sefydlog 17.24A datganodd Cefin Campbell AS fuddiant gan y bu'n rhan o'r gwaith o ddatblygu Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru).

## 2 Plant a Phobl Ifanc sydd ar yr ymylon: sesiwn dystiolaeth

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru.

2.2 Cytunodd yr Ysgrifennydd Cabinet i ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch a oes unrhyw amrywiadau rhanbarthol mewn perthynas ag atgyfeiriadau camfanteisio troseddol.

2.3 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth am y materion a ganlyn:

- ffigurau 2024 ar nifer y gweithwyr cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru;

- ffigurau 2024 ar y niferoedd sy'n mynd drwy hyfforddiant gwaith cymdeithasol;

- pa mor aml y mae byrddau diogelu yn cyfarfod;

- canlyniadau trafodaethau gyda Gweinidog diogelu y DU ar 23 Hydref 2024 ynghylch argymhellion Adolygiad Jay.

## 3 Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) – sesiwn dystiolaeth 1

3.1 1.2 Croesawodd y Cadeirydd Heledd Fychan AS a Lee Waters AS o'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, a ymunodd â'r cyfarfod o dan Reol Sefydlog 17.49 ar gyfer Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru).

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mark Drakeford AS, yr Aelod sy’n gyfrifol.

Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i ddarparu nodyn ar y canlynol:

- Y gofynion ar gyfer ymgynghori yn y Bil ac, yn benodol, mewn perthynas ag ymgynghori ac ymgysylltu â chymunedau;
- Ystyriaeth benodol o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP) wrth ddatblygu’r Bil ac ym mha ffordd y cafodd ei Erthyglau ystyriaeth uniongyrchol yn yr Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant.

## 4 Papurau i’w nodi

4.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Trafod y dystiolaeth a gafwyd yn y sesiynau tystiolaeth blaenorol.

6.1 Trafododd Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn flaenorol.

## 7 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 – trafod y cwmpas a'r dull gweithredu

7.1 Gan fod amser yn brin, gohiriwyd yr eitem hon i'w thrafod yn y cyfarfod nesaf.